



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Polisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi: 28 Medi 2021

# Polisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg

## Trosolwg

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Fel mae teitl y strategaeth yn ei awgrymu, rydyn ni am weld nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi i 1,000,000 erbyn 2050 (o'r nifer a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011, sef 562,000).

Mae'r strategaeth hefyd yn rhagweld y bydd canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, yn cynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a gwneud yn siŵr bod modd iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, mae seilwaith ieithyddol modern a chadarn yn hollbwysig.

I gefnogi hyn, fe wnaethom ddatblygu polisi cenedlaethol drafft i gynnig ffyrdd o wella sut mae'r maes yn gweithio i'r defnyddiwr. Mae'r ddogfen isod yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y polisi drafft hwnnw.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

### E-bost:

[UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru](mailto:UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru).

(Cofiwch gynnwys 'Polisi Cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg' yn y llinell pwnc)

### Post:

Is-adran y Gymraeg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/ymgyngoriadau](http://llyw.cymru/ymgyngoriadau)

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb o'r ymatebion</b>	<b>5</b>
<b>Sgyrsiau â grwpiau ffocws</b>	<b>27</b>
<b>Casgliad a'r camau nesaf</b>	<b>31</b>
<b>Atodiad A – Rhestr ymatebwyr</b>	<b>32</b>

## Cyflwyniad

- 1.1. Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethon ni gyhoeddi ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Fel mae teitl y Strategaeth yn ei awgrymu, rydyn ni am weld nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi i filiwn erbyn y flwyddyn 2050 (o'r nifer a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011, sef 562,000). Mae'r strategaeth hefyd yn gosod targed bod canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, yn cynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.
- 1.2. Agwedd arall ar y strategaeth yw creu amodau ffafriol – pethau fel adnoddau ieithyddol, economi ffyniannus, neu sicrhau cefnogaeth pobl i'r iaith. Mae adnoddau fel geiriaduron, terminolegau a corpora (pethau rydyn ni'n cyfeirio atyn nhw ar y cyd yma fel 'seilwaith ieithyddol') yn rhan bwysig iawn o hyn, ac yn gwneud llawer i osod y sylfeini ar gyfer caffael a defnyddio Cymraeg.
- 1.3. Ar 16 Mawrth 2021, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (teitl y Gweinidog ar y pryd) ymgynghoriad ar fersiwn drafft o *Bolisi cenedlaethol seilwaith ieithyddol y Gymraeg*.
- 1.4. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynglŷn â nod y polisi drafft o'i gwneud yn haws i bobl ddefnyddio adnoddau ieithyddol Cymraeg, ac yn cynnwys cynigion ar ffyrdd posib o wneud hynny o dan 6 pennawd, sef:
  1. **Geiriaduron**
  2. **Terminoleg**
  3. **Corpora**
  4. **Safoni** (er enghraifft orgraff/sillafu, enwau lleoedd, termau)
  5. **Creu un rhyngwyneb – sicrhau chwilio hawdd ar draws pob adnodd**
  6. **Creu uned newydd i gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg**
- 1.5. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg am 16 wythnos, hyd at 6 Gorffennaf 2020, ac roedd modd ymateb i'r ymgynghoriad mewn 3 ffordd: ar-lein, drwy'r post ac mewn e-bost.
- 1.6. Yn ogystal â gwahodd ymatebion ysgrifenedig drwy'r sianeli a restrir uchod, cafodd 4 grŵp ffocws eu cynnal i dargedu grwpiau penodol:
  1. Cynrychiolwyr unedau iaith Gymraeg Amgueddfa Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd
  2. Cyfieithwyr llawrydd
  3. Tiwtoriaid y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
  4. Aelodau staff Llywodraeth Cymru sydd wedi bod ar daith i ddysgu'r iaith yn ddiweddar.

Rydyn ni'n dadansoddi'r ymatebion hyn yn yr adran 'Sgyrsiau â grwpiau ffocws' isod (sef o baragraff 13.1 ymlaen).

## Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.1. Cawsom ni gyfanswm o 88 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth ymatebion i law gan unigolion yn ogystal â sefydliadau. Roedd y sefydliadau a ymatebodd yn cynnwys mudiadau sy'n lloio dros yr iaith, awdurdodau lleol, prifysgolion, sefydliadau addysg, cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg, amrywiol gyrff sy'n derbyn nawdd cyhoeddus, a darparwyr adnoddau seilwaith.
- 2.2. Cyflwynwyd ymatebion mewn amrywiol ffyrdd. Cafwyd y rhan fwyaf drwy'r ffurflen ar-lein. Fe wnaethon ni roi'r dewis hefyd o lenwi'r ffurflen all-lein a'i dychwelyd drwy ebost, ac roedd hefyd yn bosibl i ddychwelyd copi caled o'r ffurflen drwy'r post. Defnyddiodd un ymatebydd yr opsiwn o bostio copi caled. Ebostiwyd ymateb 'ffurf rydd' – hynny yw, a oedd heb ddefnyddio ffurflen ymateb yr ymgynghoriad a ddarparwyd gennym – gan saith ymatebydd,.

**Tabl 1: Dulliau Ymateb**

Dulliau Ymateb	Nifer yr ymatebion
Llenwi'r ffurflen ar-lein	61
Cyflwyno'r ffurflen drwy ebost	19
Ebostio ymateb ar ffurf rydd	7
Drwy'r post	1
Cyfanswm	88

- 2.3. Cawsom 50 ymateb yn Gymraeg, 34 yn Saesneg, a 4 yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 2.4. Ni atebodd pob ymatebydd y cwestiynau i gyd. Mae hyn wedi'i grynhoi yn nhabl 2.
- 2.5. Roedd modd i ymatebwyr a ddefnyddiodd y ffurflen ar-lein (yn hytrach nag ebostio neu bostio copïau caled) nodi a ydynt yn byw yng Nghymru ai peidio. O blith y 61 o ymatebwyr a ymatebodd drwy'r ffurflen ar-lein, nododd 7 eu bod yn byw y tu allan i Gymru.

**Tabl 2: Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau'r ymgynghoriad**

Y Cwestiwn Ymgynghori	Nifer yr ymatebion
C.1	81
C.2	80
C.3	79
C.4a	62
C.4b	73
C.5a	65
C.5b	63
C.5c	57
C.6	65
C.7	54
C.8	47

- 2.6. Yn ein dadansoddiad, rydyn ni wedi crynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd, gan geisio cyfleu'r brif farn a fynegwyd ynghyd â safbwyntiau eraill a roddwyd. Rydyn ni hefyd wedi grwpio'r themâu a gododd o'r ymatebion a ddaeth i law ar ffurf rydd (hynny yw, nid ar y ffurflen a ddarparwyd) o dan y cwestiynau mwyaf perthnasol er mwyn ceisio dangos yn glir y themâu a oedd yn codi.
- 2.7. Mae'r ymatebion ar gael i'w darllen yn y ddogfen 'Ymatebion Cyffredinol' sydd i'w chanfod ar yr un dudalen we â'r ddogfen hon.

## Crynodeb o'r ymatebion

- 3.1. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gawsom yn cefnogi'r polisi ac, yn gyffredinol, y cynigion ar gyfer gweithredu. Cafwyd rhai ymatebion negyddol nad oedd yn gefnogol i drywydd y polisi arfaethedig, yn ogystal â rhai sylwadau generig yn erbyn ariannu'r Gymraeg yn ehangach.
- 3.2. Cawsom rai sylwadau hefyd a oedd y tu allan i gwmpas y polisi, gan nad oedd eu ffocws wedi'i anelu'n benodol at faes seilwaith ieithyddol y Gymraeg, felly nid ydym wedi eu crynhoi yn yr adroddiad hwn.

### Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno gyda'r dull rydyn ni'n ei gynnig o ddatblygu polisi er mwyn cydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well?

- 4.1. Atebodd 81 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 4.2. Nododd 70 (86.4%) o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn eu bod yn cytuno gyda'r dull rydyn ni'n ei gynnig. Nododd 9 (11.1%) eu bod yn anghytuno, a 2 (2.5%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 6 ymatebydd wedi darparu atebion ar ffurf rydd (hynny yw heb fod ar y ffurflen) nad oedd yn ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol – gan mai cwestiwn meintiol yw hwn, nid ydym wedi cynnwys yr atebion ffurf rydd hyn yn y ffigurau yn y paragraff hwn.
- 4.3. Er nad oedd lle penodol i gynnig sylwadau o dan y cwestiwn hwn, roedd nifer fach o ymatebwyr wedi gwneud.
- 4.4. Mynegodd rai defnyddwyr ei bod yn hollbwysig ystyried y defnyddiwr wrth ddylunio gwefan, a modelu yn unol â phrofiad a phroffil amrywiol defnyddwyr.
- 4.5. Awgrymwyd y gallai unigolion ag arbenigedd ieithyddol ar draws ystod eang o feysydd gyfrannu wrth gamu ymlaen, er mwyn gwneud yn siŵr bod yr adnoddau mor hawdd ac ymarferol â phosib i'w defnyddio.
- 4.6. Nododd un ymatebydd fod nifer o'r materion yn y ddogfen "wedi bod angen sylw ers rhai blynyddoedd a gwyddom fod sawl ymdrech flaenorol wedi bod i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd hyn. Croesawn y datblygiad hwn felly yn fawr iawn".
- 4.7. Mynegwyd ei bod yn bwysig sefydlu corff â chyfrifoldeb dros gydlynu seilwaith ieithyddol y Gymraeg, a bod hyn yn arfer gyffredin mewn gwledydd sydd ag ieithoedd tebyg i'r Gymraeg.
- 4.8. Roedd ambell i ymatebydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd a photensial y polisi seilwaith ar gyfer y maes iechyd.
- 4.9. Nid oedd pob ymatebydd wedi'u hargyhoeddi o'r angen am un rhyngwyneb, gydag un yn dweud y "byddai hynny yn bygwth dyblygu data gwerthfawr gwefannau eraill

sydd wedi treulio blynyddoedd maith yn eu casglu a'u mireinio, a thrwy hynny mae perygl mawr y byddai'r wefan newydd yn dwyn cynulleidfa'r gwefannau hynny”.

## Cwestiwn 2: Pa eiriaduron neu adnoddau geiriadurol ydych chi'n eu defnyddio i chwilio am air Cymraeg?

- 5.1. Atebodd 81o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 5.2. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa eiriaduron roedden nhw'n eu defnyddio i chwilio am eiriau Cymraeg.

Tabl 3: Nifer y bobl sy'n defnyddio gwahanol adnoddau geiriadurol (roedd modd rhoi mwy nag un ateb)

<b>Enw'r Geiriadur</b>	<b>Nifer sy'n defnyddio</b>
Geiriadur Prifysgol Cymru ar-lein	<b>50</b>
Ap Geiriadur Prifysgol Cymru	<b>32</b>
Fersiwn print Geiriadur Prifysgol Cymru	<b>15</b>
Geiriadur yr Academi ar-lein (Saesneg-Cymraeg)	<b>40</b>
Fersiwn print Geiriadur yr Academi (Saesneg-Cymraeg)	<b>28</b>
Geiriadur ar-lein Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	<b>20</b>
Geiriadur Prifysgol Bangor ar-lein (Cymraeg-Saesneg)	<b>23</b>
Ap Geiriaduron	<b>37</b>
Cysgeir	<b>13</b>
Y Gweiadur ar-lein	<b>18</b>
Y Geiriadur Mawr (fersiwn print)	<b>27</b>
Geiriadur Cymraeg Gomer (fersiwn print)	<b>14</b>
Bing Translator	<b>9</b>
Microsoft Translator	<b>13</b>
Google Translate	<b>38</b>

- 5.3. Roedd cyfle i ymatebwyr nodi hefyd pa eiriaduron eraill maen nhw'n eu defnyddio, ar wahân i'r rhai a nodwyd yn y papur. Roedd yr adnoddau ychwanegol hyn yn cynnwys:
  - Geiriadur ar-lein Glosbe
  - Gwefan MyMemory



- Geiriadur y Gyfraith / Geiriadur Newydd y Gyfraith, Robyn Lewis

- 5.4. Yn ogystal â nodi pa adnoddau maen nhw'n eu defnyddio, roedd cyfle i ymatebwyr ychwanegu sylwadau. Tynnodd ambell i ymatebydd sylw at y ffaith mai geirfaeodd neu eirlyfrau oedd nifer o'r adnoddau a restrwyd yn yr adran hon, yn hytrach na geiriaduron llawn yng ngwir ystyr y gair (yn wahanol i eirfaeodd neu eirlyfrau, sy'n dweud beth yw'r gair Cymraeg neu Saesneg cyfatebol, mae geiriaduron hefyd yn rhoi diffiniad o'r gair dan sylw). Nodwyd bod angen deall ystyr gair neu derm er mwyn dewis yr un cywir, a bod hynny'n galw am eu diffinio. Holwyd pa lefel o ddiffinio y bydd yr uned arfaethedig newydd yn ei ddymuno.
- 5.5. Nododd ymatebydd bod dirfawr angen geiriadur penodol ar gyfer dysgwyr Cymraeg.
- 5.6. Roedd nifer yn cytuno gyda'r angen i gyfuno deunyddiau geiriadura fel bod y defnyddiwr yn gallu troi at un porth. Yn ôl un ymatebydd roedd hyn hefyd yn "wir am yr angen i uno'r geiriaduron bach aml-ddefnydd....er mwyn creu un geiriadur cyffredinol ar-lein y bydd pawb yn gallu defnyddio ar gyfer defnydd bob dydd".
- 5.7. Roedd ymatebydd arall yn cytuno y byddai "creu un geiriadur sydd yn addas i'w ddefnyddio bob dydd yn ddefnyddiol dros ben yn enwedig os ydy hynny ar gael fel ap, a bod angen un Geiriadur dibynadwy, Cymraeg-Saesneg, Saesneg-Cymraeg, sydd yn hawdd i'r cyhoedd ddefnyddio o ddydd i ddydd".
- 5.8. Crybwyllwyd bod natur y ddarpariaeth bresennol yn golygu bod angen croesgyfeirio rhwng nifer o ffynonellau er mwyn dod o hyd i eiriau, a bod hyn yn gofyn am ddealltwriaeth dda o'r ffynonellau ac o ffactorau fel statws a diben adnoddau penodol. Roedd hyn yr un mor berthnasol i bobl wrth eu gwaith ag aelodau'r cyhoedd. Nododd un ymatebydd: "Nid yw'n rhesymol disgwyl bod gan bob swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth ei waith yr amser, y wybodaeth gefndirol, na'r sgiliau angenrheidiol i ymroi i waith ymchwil o'r fath bob tro y mae angen dewis gair – heb sôn am aelodau'r cyhoedd".
- 5.9. O ran yr adnoddau eu hunain, roedd gan ymatebwyr barch mawr at yr hyn sydd eisoes ar gael. Nododd un ymatebydd bod angen i Eiriadur Prifysgol Cymru fod yn ganolog i unrhyw broses o ddiffinio a gosod safonau orgraffyddol. Ond ychwanegwyd, os am ateb y cwestiwn 'Lle ydych chi'n mynd i chwilio os byddwch chi eisiau gwybod beth yw ystyr gair?', "mai'r Gweiadur yw'r unig ffynhonnell arall a restrwyd yn y ddogfen ymgynghori fyddai'n gallu ateb y cwestiwn hwnnw".

### Cwestiwn 3: Pa gronfeydd termau ydych chi'n eu defnyddio i chwilio am dermau Cymraeg?

- 6.1. Atebodd 80 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 6.2. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi pa gronfeydd termau roedden nhw'n eu defnyddio i chwilio am dermau Cymraeg.

Tabl 4: Nifer y bobl sy'n defnyddio gwahanol adnoddau termau (roedd modd rhoi mwy nag un ateb)

Enw'r gronfa dermau	Nifer sy'n defnyddio
BydTermCymru	40
Y Porth Termau Cenedlaethol	34
Ap Geiriaduron	39
Cysgeir	14
Geiriadur Termau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol	27
Y Termiadur Addysg	18

- 6.3. Roedd cyfle i ymatebwyr nodi hefyd pa gronfeydd termau eraill y maen nhw'n eu defnyddio, ar wahân i'r rhai a nodwyd yn y papur. Roedd yr adnoddau ychwanegol hyn yn cynnwys:
- Google Translate
  - Glosbe
  - MyMemorry
  - Chwiliad Google
  - Geiriadur yr Academi
  - Wicipedia Cymraeg
  - Corpws Cyfochrog Cofnod y Cynulliad
  - Ap Gofalu Trwy'r Gymraeg
  - Gair i Glaf: An English-Welsh Phrasebook for Health Care Professionals – J. Elwyn Hughes (1999)
  - Y Bywiadur
  - Hen restrau termau a baratowyd gan Fwrdd Gwybodau Celtaidd Prifysgol Cymru
  - Rhestrau ad hoc cyrff cyhoeddus, cymdeithasau, ac ati e.e. Geirfa Amgueddfa Cymru, Termau Stonewall Cymru, Gwasg Prifysgol Cymru, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
  - Cronfeydd mewnol sefydliadol e.e. drwy Memsources
  - Rhestr o Enwau Lleoedd - A gazetteer of Welsh Place-names, Elwyn Davies

- Dictionary of the Place-names of Wales, Hywel Wyn Owen, Richard Morgan

- 6.4. Yn yr un modd â chwestiwn 2 (a oedd yn gysylltiedig â geiriaduron), roedd cwestiwn 3 hefyd yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr ychwanegu sylwadau ategol.
- 6.5. Yn gyffredinol, mynegwyd cefnogaeth i'r syniad bod termau Cymraeg yn cael eu creu a'u safoni'n gyflym. Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus bod unrhyw ddatblygiadau o ran termau'n arwain at sefyllfa lle mae yna lais awdurdodol yn y maes.
- 6.6. Roedd rhai ymatebion yn cyfeirio at enghreifftiau penodol lle mae gwahanol sefydliadau'n creu termau eu hunain gan arwain at anghysondeb. Roedd nifer yn honni bod hyn yn arwain at ddiffyg hyder ymysg siaradwyr Cymraeg, boed hynny yn y gweithle neu ymysg y cyhoedd.
- 6.7. Nodwyd bod angen sicrhau bod safoni termau yn cael ei gydlynu er mwyn osgoi blychau yn y ddarpariaeth, a bod termau ar gael yn gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau gwleidyddol a chymdeithasol. Crybwyllwyd bod hyn yn eithriadol o bwysig yng nghyd-destun rhoi'r cwricwlwm newydd i Gymru ar waith.
- 6.8. Gan fod y farchnad ar-lein mor gystadleuol, ac oherwydd y bylchau presennol o safbwynt meddalwedd Gymraeg, mynegwyd pryderon y byddai sefydliadau o'r tu allan i Gymru yn dod i ddarparu'r adnoddau hyn mewn ffordd na fyddai'n gadarn nac yn gywir, ac y byddai hynny'n golygu colli cyfle.
- 6.9. Roedd sawl ymatebydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael termau safonol a chyson sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Crybwyllwyd bod y cyfle i gydlynu a chysoni'r defnydd o dermau yn y maes hwn yn bwysig, ac y gellid gwneud hynny drwy hyrwyddo'r defnydd o gronfeydd penodol mewn systemau cyfieithu, a thrwy godi ymwybyddiaeth cyfieithwyr o egwyddorion rheoli terminoleg.
- 6.10. Ategodd ymatebydd arall fod nifer o ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn dal i ddibynnu ar hen restrau terminoleg, heb sylweddoli nad ydyn nhw'n gyflawn neu nad oes safonau rhyngwladol wedi eu defnyddio, mewn rhai achosion, wrth eu paratoi. Nodwyd bod angen diweddarau a chyfuno'r rhestrau hyn gan ddilyn dulliau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Roedd hyn, a diffyg ymwybyddiaeth o'r holl gronfeydd termau ar gyfer y maes "yn peryglu cywirdeb a dibynadwyedd asesiadau clinigol / cymdeithasol yn ogystal â lleihau'r gallu i weithwyr proffesiynol wneud penderfyniadau a chynlluniau ar y cyd gyda chleifion / cleientiaid, a chadw cofnodion sy'n wir adlewyrchu llais y defnyddwyr hynny sy'n siarad Cymraeg".
- 6.11. Yn ogystal ag lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, cafwyd rhai sylwadau yn ymdrin â safoni termau mewn meysydd eraill hefyd. Roedd y meysydd hyn yn cynnwys cyfiawnder, y gyfraith, addysg a phynciau'r cwricwlwm newydd. Holodd un ymatebydd "a fyddai'r uned yn cynorthwyo gyda safoni termau a ddefnyddir mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli?"

- 6.12. Thema arall a gododd sawl gwaith oedd yr angen i fod yn ymatebol i arferion tafodieithol a'r Gymraeg a ddefnyddir ar lawr gwlad, yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar bywllgorau 'academaidd' eu natur. Ychwanegodd ymatebydd y dylid ceisio defnyddio terminoleg ddaearyddol-niwtral lle bo modd, ond mewn achosion lle nad yw hynny'n bosib y dylid rhoi statws cyd-swyddogol i fersiynau tafodieithol gwahanol.
- 6.13. Roedd rhai'n pwysleisio'r angen i beidio ag anghofio am adnoddau a fforymau trafod eraill ar-lein, fel Welsh-Termau-Cymraeg ar wefan Jiscmail, ac amrywiol grwpiau ar Facebook – gan awgrymu bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn cadw llygad ar drafodaethau grwpiau tebyg.
- 6.14. Dywedodd rhai o'r sefydliadau a ymatebodd y gallai eu rhaglenni a'u prosiectau hwy gyfrannu at gamau gweithredu penodol. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod cydweithredu'n allweddol i lwyddiant nifer o'r camau gweithredu.
- 6.15. Roedd sylwadau eraill ynghylch llwyddiant tebygol y camau gweithredu arfaethedig yn amlygu pwysigrwydd sicrhau adnoddau digonol i'w cyflawni; ansawdd eu gweithrediad; a marchnata a chyfathrebu.

#### **Cwestiwn 4a: Petaem yn creu gwefan i ddarparu gwahanol adnoddau ieithyddol mewn un man, ar wahân i'r hyn a nodir yn adran 5 y ddogfen ymgynghori, beth arall yr hoffech chi weld y wefan yn ei wneud?**

- 7.1. Atebodd 62 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 7.2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn gefnogol i'r cynigion yn y polisi drafft. Ar yr un pryd, roedd gan nifer o'r ymatebwyr farn ynghylch sut y gellid gwella'r cynigion, a sut y gellid creu gwefan fwy cynhwysfawr neu gyflawn.
- 7.3. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y gellid wedi rhoi mwy o bwyslais ar siaradwyr newydd wrth ddisgrifio arlwy'r wefan arfaethedig. Yn hyn o beth, teimlwyd bod angen rhoi sylw i faterion sydd o ddiddordeb i siaradwyr newydd, er enghraifft drwy ddefnyddio'r ffurfiau ar eiriau a thermau y mae dysgwyr wedi arfer â nhw, y posibilrwydd o chwilio am air neu derm mewn ffordd sy'n adnabod geiriau treigledig, neu sy'n dangos sut mae geiriau'n treiglo. Roedd eraill o'r farn y dylai'r wefan gynnwys help gydag idiomau neu ymadroddion Cymraeg cyffredin, neu'r posibilrwydd o glywed ynganiadau o eiriau a thermau Cymraeg, a'u gweld mewn cyddestun mewn brawddegau. Roedd rhai o'r farn y byddai ymarferion iaith a phatrymau rhedeg berfau hefyd yn ddefnyddiol.
- 7.4. Yn yr un ffordd, roedd rhai yn holi a fyddai modd i'r wefan gydnabod geiriau a thermau tafodieithol ochr yn ochr â rhai safonol, er mwyn helpu dysgwyr gyda gwahaniaethau lleol, er enghraifft rhwng y de a'r gogledd, er mwyn helpu i gynyddu hyder. Roedd eraill yn holi am i'r wefan gynnwys dolenni'n cyfeirio defnyddwyr at

adnoddau dysgu ar wefannau eraill, er enghraifft SaySomethinginWelsh neu Duolingo.

- 7.5. Yn wir, roedd thema gref ymysg nifer o ymatebwyr yr hoffent weld y wefan yn gwneud mwy nag ymhél â materion ieithyddol yn unig, er enghraifft crybwyllwyd darparu dolenni at sefydliadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac yn hyrwyddo cyfleoedd i'w defnyddio'n gymdeithasol, yn y gweithle, ac yn y teulu. Roedd eraill eisiau gweld cyrsiau a chyfleoedd am secondiadau i ddysgwyr yn cael eu hyrwyddo ar y wefan, tra bo awgrym hefyd y dylai fod yn fodd o hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny drwy fod yn wefan i rannu prosiectau, mentrau a digwyddiadau sydd ar y gorwel.
- 7.6. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r buddion a allai fod i ddysgwyr, roedd ambell un yn anghytuno gyda'r cynigion yn y papur o ran sut i wneud hynny. Er enghraifft, crybwyllwyd bod y cynnig i ddefnyddiwr allu 'nodi pa fath o ddefnyddiwr ydych chi' yn golygu y byddai angen i unigolion wneud nifer o gliciadau er mwyn cael canlyniad, ac y byddai hyn yn enghraifft o arfer wael: *'One-click websites are still the gold standard, especially for users of screen readers and other accessibility aids'*.
- 7.7. Yn ogystal â siaradwyr newydd, pwysleisiwyd yr angen i adnoddau apelio i blant o bob oed, gydag un ymatebydd yn crybwyll bod angen i'r dewis o ran geiriaduron a themiaduron gynnwys fersiynau darluniadol.
- 7.8. Roedd sawl ymatebydd yn croesawu'r cynnig y gellid gwneud cais am air neu derm os nad oedd eisoes ar gael ar y wefan, ac o'r farn y byddai hyn yn annog defnyddwyr i berchnogi'r iaith, tra hefyd yn helpu i gadw adnoddau'n berthnasol.
- 7.9. Ymysg yr adnoddau eraill y crybwyllwyd y gellid eu cynnwys ar y wefan oedd canllawiau orgraff; rhestr o benderfyniadau ac argymhellion Panel Safoni'r Gymraeg; canllawiau gramadegol wedi'u hanelu at wahanol lefelau gallu; canllawiau arddull; ffurfiau safonol Cymraeg ar enwau lleoedd, pobloedd ac ieithoedd y tu allan i Gymru; rhestrau o enwau strydoedd ac enwau tirweddol; cyfleuster 'live chat' lle gall defnyddiwr gysylltu i gael cymorth gyda mater ieithyddol; gwirydd sillafu; mynediad at eiriaduron Cymraeg > ieithoedd Ewropeaidd eraill fel Almaeneg, Ffrangeg a Sbaeneg; Cyngor ar ystyriaethau technolegol, er enghraifft sut i gael toeon bach wrth deipio, sut i gael rhyngwynebau Cymraeg, ac ati; odliadur; thesawrws; fideos yn egluro sut i ddefnyddio'r gwahanol adnoddau, yn arbennig ar gyfer gwahanol oedrannau ym myd addysg; blogiau diddorol ar wahanol agweddau ar eirfa, gramadeg, a tharddiad geiriau; dolenni at adnoddau cyfieithu, er enghraifft cyfieithwyr annibynnol, Helo Blod ac ati. Crybwyllwyd hefyd mai da fyddai digideiddio holl recordiadau Sain Ffagan o dafodieithoedd Cymraeg a rhoi dolen i'r gronfa ddata honno ar y wefan.
- 7.10. Wedi dweud hynny, roedd ambell i ymatebydd eisiau gweld y wefan yn gwneud llai nag a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori. Roedd y rhain am weld adnodd 'light-touch', neu beidio â thynnu'r adnoddau ynghyd o gwbl. Yn hyn o beth, mynegwyd y

gallai fod yn well cadw'r wefan yn syml, fel tudalen sy'n esbonio pa adnoddau sydd ar gael, ac a fyddai'n cyfeirio defnyddwyr at y rhai gorau ar eu cyfer nhw. Un o'r rhesymau a roddwyd ar gyfer hyn oedd pwysigrwydd cadw adnoddau ansawdd uchel ar wahân, am y gallai eu 'cyd-doddi' mewn un man ag adnoddau eraill nad ydynt o'r un ansawdd fod yn broblem.

- 7.11. Roedd sawl ymatebydd wedi crybwyll yr angen i adolygu'r wefan a'r drefn newydd ar ôl cyfnod o amser, gydag ambell i awgrym yn nodi y byddai'n ddefnyddiol i ddefnyddwyr allu cynnig adborth drwy'r wefan er mwyn helpu i'w wella ar sail profiadau'r defnyddwyr eu hunain.
- 7.12. Roedd sawl ymatebydd wedi pwysleisio pwysigrwydd unrhyw adnodd newydd i gyfieithwyr, yn ogystal â'r potensial i gyfieithwyr chwarae rhan bwysig yn y datblygiadau arfaethedig. Er enghraifft, nodwyd y byddai gallu dod o hyd i gyfieithiadau Cymraeg mewn un lle yn gymorth i bob siaradwr Cymraeg, gan gynyddu swmp y deunydd sydd wedi'i gyfieithu sydd ar gael i bobl.
- 7.13. Mynegwyd hefyd y byddai gwefan ganolog yn gymorth i roi mwy o Gymraeg yn y dirwedd ieithyddol ac i ddarparu gwasanaethau Cymraeg gwell. Soniodd un ymatebydd fod gofyn newid dogfennau a gyfieithwyd yn allanol yn rheolaidd oherwydd anghysondebau o ran termau – yr awgrym oedd y gallai gwefan ganolog helpu cyfieithwyr yn hyn o beth. Er mwyn hwyluso hynny, nodwyd mai da fyddai gallu cynnwys termau y mae cyrff yn eu bathu ar y wefan arfaethedig hyd nes y bydd term safonedig yn ymddangos, fel bod term posibl addas ar gael i bawb, gan gynnwys cyfieithwyr.
- 7.14. Er yr ymateb cadarnhaol yn gyffredinol, roedd rhai ymatebion yn rhybuddio ynghylch pa mor uchelgeisiol oedd y cynigion ar gyfer y wefan arfaethedig, gan nodi y byddai dwyn nifer o adnoddau ynghyd ar un wefan yn heriol. Cynghorwyd y dylid canolbwyntio ar wneud hynny'n iawn i ddechrau, cyn ystyried beth arall y gellid ei gynnig.
- 7.15. Yn yr un modd, mynegwyd mai cam cyntaf yn unig fyddai creu gwefan, ac "na fyddai'n ddigon i ddatrys yr ail broblem a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, sef nad 'oes modd i'r defnyddiwr cyffredin wybod beth yw statws y ffynonellau, na pha un sy'n fwyaf tebygol o gynnig yr ateb safonol." Rhybuddiwyd y "gallai tynnu'r adnoddau hyn ynghyd drwy un porth chwilio amlygu'r broblem honno'n gliriach i'r defnyddiwr yn y tymor byr gan danlinellu'r anghysondebau sy'n gallu bodoli rhwng yr adnoddau."
- 7.16. Awgrymwyd mai cam cadarn tuag at leddfau ar hynny oedd yr awgrym yn y papur ymgynghori i wneud gwaith cysoni cychwynnol o ran sillafiadau, er y gallai hyn gymryd cryn amser i'w gyflawni. Awgrymwyd ymhellach y byddai angen cynllunio gweithdrefn i flaenoriaethu cofnodion i'w diwygio i'r perwyl hwn.
- 7.17. Croesawodd sawl ymatebydd y cynnig i ddefnyddio cofnodion chwilio'r wefan i adnabod bylchau a blaenoriaethu gwaith at y dyfodol. Roedd ambell un hefyd yn

dymuno gallu gweld hanes eu chwiliadau personol er mwyn dysgu a chyfeirio atynt yn y dyfodol, gyda'r cynnig hefyd y gellid rhannu cofnodion unigolion oedd yn rhan o gymunedau penodol o ddefnyddwyr.

- 7.18. Roedd nifer o ymatebion yn mynegi pwysigrwydd datblygu ap hefyd a fyddai'n cynnwys yr holl adnoddau ar y wefan mewn un man.
- 7.19. Mynegodd un ymatebydd fod plant oedran ysgol yn gwbl hapus yn defnyddio cyfryngau digidol yn unig i chwilio am eiriau, ac na fydden nhw am ddefnyddio geiriaduron print yn lle hynny.
- 7.20. Mynegodd nifer o ymatebwyr y byddai'n ddefnyddiol cael cyfres o fideos byr i diwora'r defnyddiwr ar sut i ddefnyddio'r gwahanol adnoddau, gan nodi bod sicrhau bod pobl yn gallu gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau yn rhywbeth sydd wedi ei esgeuluso i raddau dros y blynyddoedd diwethaf.
- 7.21. Roedd un ymatebydd wedi crybwyll y byddai'n bwysig, er mwyn sicrhau traffig sylweddol i'r wefan, bod modd iddi ddenu traffig o beiriannau chwilio a thargedu cynulleidfaoedd posibl. Awgrymwyd y gellid gwneud hynny drwy gynnwys ymarferion rhyngweithiol a rhestrau geiriau ar gyfer, er enghraifft, dysgwyr ifanc, a thrwy ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol.
- 7.22. Roedd sawl ymatebydd yn nodi pwysigrwydd cynnwys arbenigwyr pwnc / maes mewn unrhyw benderfyniadau ieithyddol ar gyfer y wefan, tra oedd rhai hefyd o'r farn y dylid gwahodd unigolion a chyrrff i fynegi beth yw eu blaenoriaethau.

#### **Cwestiwn 4b: Petaem yn creu gwefan i ddarparu gwahanol adnoddau ieithyddol mewn un man, dan ba amgylchiadau fydddech chi'n defnyddio'r wefan?**

- 8.1. Atebodd 73 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 8.2. Cafwyd amrywiaeth eang yn yr atebion o dan y cwestiwn hwn. Y prif amgylchiadau a nodwyd ar gyfer defnyddio'r wefan oedd yn y gwaith, at ddefnydd personol, neu i gyfieithu darn o waith. Roedd sawl ymateb yn pwysleisio y byddai hynny'n wir yn achos unrhyw ap cysylltiedig a ddatblygwyd ar y cyd â'r wefan.
- 8.3. Roedd nifer o ymatebwyr yn ymhelaethu ar y math o ddefnydd y byddai hyn yn ei olygu, er enghraifft er mwyn datblygu cwrslyfrau ac adnoddau i ddysgwyr, wrth chwilio am dermau arbenigol ar gyfer maes penodol, er mwyn gwirio sillafu, ffurf y ferf neu dreiglo'n gywir, i chwilio am ddiffiniadau geiriau a thermau, i gyrchu cyfieithiadau Saesneg o eiriau Cymraeg, neu i chwilio am enghreifftiau o ddefnydd.

- 8.4. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r wefan arfaethedig hefyd o fudd i fagu hyder siaradwyr Cymraeg nad ydyn nhw'n brofiadol yn paratoi dogfennau, gan y byddai'n rhoi sicrwydd bod y geiriau a'r termau a ddefnyddir ganddynt yn rhai cyfoes.
- 8.5. Nododd rhai ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r adnodd yn ddyddiol os oedd ar gael, ac y byddid yn ei hyrwyddo ymhlith staff, cwsmeriaid, dysgwyr, partneriaid, busnesau lleol ac ysgolion, cyhyd â'i fod o ansawdd uchel ac yn hawdd i'w ddefnyddio.
- 8.6. Roedd nifer o ymatebwyr yn dweud y byddai defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r wefan petai'n darparu ar gyfer defnyddwyr mewn sector penodol, er enghraifft ar gyfer myfyrwyr ac ymarferwyr a staff clinigol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Pwysleisiwyd bod terminoleg yn rhan amlwg iawn o'r gwaith yn y maes hwn, ac y byddai defnydd dyddiol o'r wefan arfaethedig, yn arbennig ymysg y rheini nad ydynt yn gyfarwydd â'r adnoddau ieithyddol sydd eisoes yn bodoli.
- 8.7. Maes arall y nododd ymatebwyr y byddai'r wefan yn bwysig ar ei gyfer oedd y maes addysg. Nid yn unig y byddai'n bwysig i ddisgyblion ysgol gael rhyngwyneb addas ar gyfer gwahanol gamau o'r cwricwlwm, ond byddai hefyd yn helpu darparwyr hyfforddiant i gynyddu eu darpariaeth o brentisiaethau dwyieithog, ac yn helpu prentisiaid i gwblhau gwaith yn y Gymraeg.
- 8.8. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddent yn defnyddio'r wefan fel rhieni i blant ysgol, ac y byddai'n helpu rhieni nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg ond sydd â phlant mewn addysg Gymraeg. Mynegwyd y byddai'r wefan hefyd yn helpu plant ysgol i fod yn fwy annibynnol wrth wneud eu gwaith cartref.
- 8.9. Cafwyd ymatebion gan athrawon a nododd y bydden nhw'n defnyddio'r wefan yn eu gwaith, a chan diwtor Cymraeg i oedolion a nododd y byddai'r wefan yn ddefnyddiol i ddod o hyd i air Cymraeg ar gyfer y dysgwyr.
- 8.10. Roedd ambell i ymatebydd yn nodi na fyddent yn defnyddio'r wefan o gwbl, er enghraifft am y byddai'n well ganddynt fynd i lygad y ffynnon er mwyn cefnogi'r sefydliadau sy'n gwneud y gwaith caib a rhaw. Roedd ambell un yn hapus gyda'r drefn bresennol.
- 8.11. Nododd ymatebydd arall y byddai defnyddio'r wefan yn dibynnu ar p'un a fyddai'n "haws defnyddio'r wefan na'r gwahanol wefannau unigol, a phetai'r wefan ddim yn drysu undod yr adnoddau unigol, nac yn cuddio rhywfaint o'r wybodaeth geir ganddynt".
- 8.12. Nododd rhai ymatebwyr y byddai gwefan a oedd yn cyfuno adnoddau'n gwneud bywyd yn haws, am y byddai'n bosibl cadw dim ond un tab ar agor ar y porwr drwy'r amser er mwyn gallu troi ato'n hawdd. Byddai hyn hefyd yn torri i lawr ar nifer y llyfrnodau ('bookmarks'), ac yn golygu "un clic, un chwarel o wybodaeth am iaith".



- 8.13. Nododd ambell un, pe bai'r wefan yn cynnwys popeth mewn un lle, mai dyma'r unig adnodd y byddai'n ei ddefnyddio i geisio gwybodaeth ynglŷn â geiriau a therminoleg Cymraeg.
- 8.14. Soniodd rhai ymatebwyr na fyddent yn defnyddio gwefan ganolog petai'n cynnig rhestr o adnoddau yn unig, yn hytrach na modd i chwilio'r adnoddau hynny mewn un lle. Heb hynny, a heb iddi fod yn hawdd i'w chanfod, ag enw, brand a hunaniaeth ei hun, mynegwyd na fyddai'r wefan yn llwyddo.
- 8.15. Nododd un ymatebydd bod plant oedran ysgol wedi mynegi nad ydyn nhw'n ei chael yn hawdd dod o hyd i eiriau Cymraeg ar gyfer rhai Saesneg, na geiriau Saesneg ar gyfer rhai Cymraeg. Aeth yr ymatebydd ymlaen i nodi y byddai angen i'r wefan arfaethedig ei gwneud yn haws dod o hyd i eiriau Cymraeg, am fo'r plant yn gweld hyn yn arbennig o anodd, yn benodol oherwydd amrywiadau sillafu.

### **Cwestiwn 5a: Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A fydd yr hyn rydyn ni'n ei gynnig yn caniatáu i ni wneud hyn?**

- 9.1. Atebodd 65 o ymatebwyr y cwestiwn hwn
- 9.2. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi'r polisi. Roedd y sylwadau i gefnogi hyn yn cynnwys "bod angen un man canolog sy'n tynnu amryw linyddau ieithyddol ynghyd" ac y "byddai gwireddu'r polisi yn welliant sylweddol ar y sefyllfa bresennol a nodweddir gan natur wasgaredig y ddarpariaeth".
- 9.3. Fodd bynnag, atebodd rhai ymatebwyr yn negyddol, gan ddweud nad oeddent am i'r polisi gael ei weithredu am nad oeddent am weld cymaint o arian yn cael ei fuddsoddi ar y Gymraeg. Holodd ymatebydd a oedd yn briodol gwario arian ar seilwaith ieithyddol y Gymraeg pan nad oes cyllid i gefnogi pobl â sgiliau ieithyddol gwael yn Saesneg. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn dweud nad oeddent am i'r polisi gael ei weithredu o gwbl.
- 9.4. Roedd gan nifer o ymatebwyr gwestiynau am fanylion y polisi, a sylwadau adeiladol ynghylch pethau i'w hystyried wrth ei ddatblygu ymhellach. Er enghraifft, holodd ambell i ymatebydd sut fyddai rhywun sy'n chwilio'r wefan yn gwybod pa ffurf sy'n gywir, os oes nifer o atebion yn dod i fyny mewn chwiliad, gan nodi y gallai hynny ddrysu rhai defnyddwyr.
- 9.5. Crybwyllodd un ymatebydd nad oedd y cynigion yn mynd i'r afael â rhywbeth sy'n achosi problemau i ddysgwyr o bob math, sef sut i ynganu geiriau. Awgrymwyd mai ateb i hyn fyddai creu cronfa ddata sain i eistedd ochr yn ochr â thestun y wefan.
- 9.6. Nododd nifer o ymatebwyr, er eu bod yn cytuno gyda'r cynigion ac yn gweld y byddent yn hwyluso'r ddarpariaeth seilwaith ieithyddol, y byddai eu llwyddiant yn

dibynnu ar farchnata'r ddarpariaeth newydd yn effeithiol, er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn ymwybodol o'r wefan a'r uned newydd arfaethedig. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys na ddylid cymryd y gynulleidfa darged yn ganiataol, na thargedu'n rhy gul – bod yn rhaid bod plant, pobl ifanc, dysgwyr, athrawon, gweithluoedd a'r cyhoedd oll yn ymwybodol o'r adnoddau ac yn eu defnyddio.

- 9.7. Yn y cyd-destun hwn, er mwyn sicrhau cynnwys plant ysgol, roedd un ymatebydd yn crybwyll bod angen gwaith estyn allan, ac ystyried sut fyddai'r adnodd yn cyd-blethu gyda Hwb.
- 9.8. Unwaith yn rhagor, pwysleisiodd ambell i ymatebydd bwysigrwydd ystyried maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y ddarpariaeth newydd, gan bwysleisio y dylai'r maes gael sylw penodol wrth ystyried sut i fwrw ymlaen i weithredu.
- 9.9. Roedd nifer o ymatebwyr yn nodi y byddai llawer yn dibynnu ar sut yn union y byddai'r wefan yn cael ei gweithredu ac yn edrych yn y pen draw. Rhybuddiwyd fod y maes yn gymhleth, a bod y cymwysterau a'r sgiliau angenrheidiol i wneud y gwaith yn brin. Yn hynny o beth, un ateb a grybwyllwyd oedd trefnu bod staff yr uned newydd arfaethedig yn treulio amser gyda thimau'r prosiectau seilwaith unigol er mwyn dysgu mwy am eu gwaith, ac i ddod i wybod am yr heriau penodol sy'n eu hwynebu.
- 9.10. Roedd nifer o ymatebwyr wedi croesawu'r cynnig yn y polisi drafft i greu gwasanaeth ymholiadau, lle gellid cysylltu â'r uned arfaethedig i grybwyll gair neu derm i'w hystyried. Awgrymwyd y byddai angen i sefydliadau gael atebion o fewn wythnos neu ddwy o gyflwyno'r ymholiad er mwyn i hyn fod o werth.
- 9.11. Nodwyd y byddai darparu geiriadur ar-lein Cymraeg > Saesneg yn help mawr i'r defnyddiwr. Nodwyd hefyd y byddai angen ystyried sut mae cynnwys adnoddau gwerthfawr a gynhyrchir gan unigolion preifat.
- 9.12. Thema arall a gododd mewn sawl ymateb oedd yr angen am ddarparu ffrydiau ariannol digonol er mwyn recriwtio geiriadurwyr a therminolegwyr i wneud y gwaith. Ond crybwyllwyd hefyd y dylai'r buddsoddiad arwain at adnodd sy'n fwy na gwefan chwilio, fel bod y dechnoleg yn galluogi gwaith comisiynu a chynllunio'r uned arfaethedig. Ymhellach, crybwyllwyd bod angen adolygu'n achlysurol y bwriad i bob geiriadur a chronfa dermau barhau'n brosiectau annibynnol â'u gwefannau eu hunain, and "ystyried dichonolrwydd comisiynu a chaffael isadeiledd a gwefannau ar y cyd er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o arian cyhoeddus a bod pob un o'r prosiectau'n gallu manteisio ar dechnoleg arloesol o'r radd flaenaf".
- 9.13. Er nad oedd cymaint o sylw'n cael ei roi i'r maes corpws yn yr ymatebion ag a roddwyd i, er enghraifft, geiriadura, terminoleg neu'r wefan arfaethedig, roedd ambell i ymateb yn nodi bod y pwyslais ar gorpora i'w groesawu, a bod y cynnig o ddarparu cymaint o'r adnoddau â phosib drwy drwydded agored yn egwyddor pwysig.

- 9.14. Yn yr un modd, croesawyd yr amcan i godi statws gwahanol fathau o safoni sy'n digwydd yng Nghymru, gyda rhai'n pwysleisio pwysigrwydd bod enwau lleoedd yn rhan o hyn.
- 9.15. Croesawodd ymatebydd y camau diweddar i gynnull Panel Safoni'r Gymraeg, gan nodi bod potensial gan y Panel i ddatrys materion orgraffyddol presennol. Ychwanegodd ymatebydd arall y byddai'n fuddiol sicrhau tryloywder o ran y cyrff / arbenigeddau a gynrychiolir ar y Panel hwn, ac am y broses a ddilynir ganddo, ac y byddai'n dda petai'r broses hon yn agored i ddefnyddwyr y tu allan i'r panel godi pryder neu gwestiwn.
- 9.16. O safbwynt safoni'r orgraff, dywedodd un ymatebydd: "Wrth i'r panel ymgymryd â'r gwaith o safoni orgraff y Gymraeg ac o'i foderneiddio, bydd angen sicrhau na welir ffurfiau orgraff hanesyddol yn 'anghywir', gan y byddai hyn o bosib yn tanseilio hyder nifer...i ddefnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig".
- 9.17. Mynegodd ymatebydd bod angen nid yn unig sganio'r gorwel at y dyfodol, ond hefyd cadw golwg ar waith a wnaed yn y gorffennol, gan wneud yn siŵr bod y gwaith hwnnw'n cael ei ddiweddarau a'i ddatblygu'n briodol.
- 9.18. Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r cynigion i roi'r cyfrifoldeb i uned newydd i sganio'r gorwel ar gyfer anghenion ym maes terminoleg. Ond nid oedd ambell un wedi ei argyhoeddi y byddai symud o'r drefn bresennol yn beth syml, ac yn hynny o beth yn anghytuno y byddai'r cynigion yn y papur yn arwain at well cydlynu adnoddau. Meddai un ymatebydd: "Ar hyn o bryd, blaenoriaethir safoni'r termau ar gyfer dogfennau allweddol fel deddfau, manylebau, papurau arholiad. Nid oes modd dal dogfennau felly yn ôl er mwyn blaenoriaethu maes dewisol, ac mae angen termau arnynt". Awgrymwyd yn hytrach bod angen i'r uned arfaethedig hwyluso cydlynu rhwng y cyrff sydd eisoes yn ymgymryd â'r gwaith, a bod perygl o ychwanegu rhagor o fiwrocratiaeth a fydd yn arafu'r gwaith da sydd eisoes yn digwydd.
- 9.19. Nododd un ymatebydd, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith gynhwysol, ei bod yn ddymunol rhoi cyfle i ddefnyddwyr fod yn rhan o'r gwaith o safoni termau, er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn ddealladwy. Roedd sawl ymatebydd yn nodi y byddai'n bwysig cael mewnbwn gan bobl o wahanol rannau o Gymru er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu anghenion. Nodwyd hefyd, er bod y meysydd yn yr ymgynghoriad yn galw am gael eu trefnu ar lefel genedlaethol, bod y cynigion yn dueddol o fod "o'r brig tuag i lawr", ac er mwyn lliniaru hyn y gallai'r rhyngwyneb dderbyn awgrymiadau a bod yn agored i drafodaethau am eirfa a thermau.
- 9.20. Nid oedd rhai'n cytuno mai oddi mewn i Lywodraeth Cymru oedd y lleoliad gorau i sefydlu'r uned gydlynu arfaethedig. Roedd ambell i ymatebydd o'r farn y byddai uned annibynnol ar y llywodraeth yn fwy derbyniol, a hynny am yr ystyrir fod Lywodraeth Cymru wedi'i chanoli'n ormodol ar Gaerdydd. Roedd eraill am weld yr uned yn cael ei

lleoli y tu allan i'r Llywodraeth am nad oeddent am weld y Gymraeg yn symud o dan reolaeth y wladwriaeth.

- 9.21. Canfyddiad un ymatebydd oedd, gan fod Llywodraeth Cymru yn sefydliad sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, y byddai amgylchedd Saesneg Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd yn cael effaith andwyol ar safon y gwaith.
- 9.22. Crybwyllodd ymatebydd arall, er mwy arbed costau, y gellid ystyried adeiladu ar adnoddau sydd eisoes yn bodoli, er enghraifft Geiriadur Bangor.
- 9.23. Awgrymodd ymatebydd mai'r peth pwysicaf yw galluogi'r ymchwil a'r datblygu sy'n digwydd ar hyn o bryd i barhau. Yn hynny o beth, croesawodd ymatebydd y ffaith na fydd y datblygiadau newydd yn digwydd ar draul buddsoddiad sydd eisoes yn digwydd.
- 9.24. O safbwynt technegol, nododd ymatebydd fod angen i'r wefan allu ehangu'n sydyn yn ôl y galw, a'i fod yn bwysig ei fod yn galluogi cynnal arolygon, ei fod wedi ei integreiddio'n dda ag offer dadansoddi Google, a bod angen cefnogaeth gref ar gyfer dyfeisiau symudol a chyfrifiaduron desg.

## **Cwestiwn 5b: Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A oes unrhyw beth ar goll o'r polisi drafft?**

- 10.1. Atebodd 63 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 10.2. Roedd nifer o'r ymatebion i'r adran hon yn ailadrodd neu'n crynhoi pwyntiau a fynegwyd yn y cwestiynau cynharach. Serch hynny, cafodd nifer o bwyntiau ychwanegol eu codi hefyd.
- 10.3. Mynegodd ambell i ymatebydd yr angen i'r uned a'r wefan newydd fod â statws ac awdurdod, gan holi, er enghraifft, a fyddai cyrff dyfarnu ac arholi addysg yn gorfod defnyddio geiriau a safonwyd. Holodd un ymatebydd a fyddai modd gwneud yn siŵr bod gwefannau cyfieithu peirianyddol yn dysgu i ddefnyddio termau wedi eu safoni.
- 10.4. Soniodd sawl ymatebydd am bwysigrwydd bod yr adnoddau a'r prosiectau presennol a enwir yn y ddogfen ymgynghori yn parhau ac yn cael eu datblygu ymhellach.
- 10.5. Roedd rhai ymatebwyr am weld rhagor o sylw'n cael ei roi i'r defnydd o adnoddau a grëwyd gan y cyfryngau ar draws nifer o blatfformau gwahanol, er enghraifft adnoddau i ddysgwyr a chynnwys addysgiadol. Roedd meithrin perthynas gyda'r cyfryngau yn rhywbeth yr oedd sawl ymatebydd yn ei gynnig.
- 10.6. Crybwyllodd ymatebydd fod adnoddau gwerthfawr o ansawdd uchel iawn i'w cael yn y sector masnachol/preifat, a bod angen ystyried sut i gynnwys y rhain.

- 10.7. O ran corpora, soniodd ymatebydd y dylid ystyried cynnwys testunau digidol sydd o fewn hawlfraint ond a gynhyrchwyd gyda nawdd cyhoeddus, yn ogystal â chynnwys testunau gwreiddiol Cymraeg megis testunau ffuglen, fel enghreifftiau o destunau sy'n annibynnol ar gyfatebiaeth Saesneg.
- 10.8. Roedd ymatebydd wedi holi am ragor o fanylion ac eglurhad am y panel safoni a'r swyddogion a fyddai'n gweithio mewn uned seilwaith, yn benodol ynghylch sut fyddai'r berthynas rhyngddynt, a'r broses, yn gweithio'n ymarferol.
- 10.9. Mynegodd rhai ymatebwyr nad oedd y cynigion yn mynd i ddigon o fanylder ynghylch ambell i beth, er enghraifft sut yr eir ati i roi trefn ar yr adnoddau y bwriedir bod modd eu chwilio drwy'r wefan, neu'r angen i gysoni a diwygio gwaith y gorffennol.
- 10.10. Nododd ymatebydd mai un bwlch posib oedd yr angen i roi gwell trefn ar safoni geirfa'r Saesneg, a bod potensial i'r uned arfaethedig safoni termau ar gyfer Cymru gyfan, gan gynnig arweiniad ar gyfer pa dermau sy'n dderbyniol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 10.11. Rhybuddiodd ymatebydd nad oedd digon o ystyriaeth yn y ddogfen ymgynghori i'r angen am isadeiledd ieithyddol gyfrifiadurol a systemau rheoli termau, yn ogystal â'r arbenigedd i'w defnyddio.
- 10.12. Nododd ambell i ymatebydd, er bod sôn dilys yn y ddogfen am safoni termau newydd, nad oedd yn trafod termau sydd eisoes yn bodoli (er enghraifft mewn llyfrau print) ond sydd heb eu cofnodi mewn ffynonellau digidol prif ffrwd. I wneud iawn am hyn, awgrymwyd y gellid creu casgliad o dermau o archifau hanesyddol.
- 10.13. Roedd ambell i ymatebydd am weld yr adnodd yn helpu i gefnogi pobl gydag ysgrifennu a darllen ar-lein, gyda'r botwm VOCAB ar wefannau Cymraeg y BBC yn cael ei grybwyll fel enghraifft.
- 10.14. Roedd rhai'n rhybuddio y gallai safoni'r iaith atal arloesi a datblygiad yr iaith, tra nododd sawl ymatebydd yr hoffent weld rhagor o fanylion ynghylch sut y gallai'r cyhoedd gyfrannu a bod yn rhan o'r gwaith, gan ddadlau nad arbenigwyr iaith neu gyfieithwyr yw'r bobl orau i ddeall persbectif y rhai sy'n defnyddio'r adnoddau o ddydd i ddydd.
- 10.15. Nododd sawl ymatebydd fod geiriaduron Cymraeg yn diffinio geiriau drwy ddweud beth ydyn nhw yn Saesneg. Yn y cyd-destun hwn, holodd un ymatebydd, er mwyn helpu gyda darparu diffiniadau Cymraeg o eiriau a thermau, a fyddai modd cydweithio gyda phrosiect Wikipedia Cymraeg yn hyn o beth.
- 10.16. Nododd ymatebydd bod angen adnabod meysydd blaenoriaeth ar gyfer cryfhau seilwaith ieithyddol, er enghraifft drwy helpu i sicrhau bod rhanddeiliaid penodol, megis archfarchnadoedd, yn ymwybodol ble i ganfod adnoddau a fyddai'n berthnasol iddyn nhw.

## Cwestiwn 5c: Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r hyn rydyn ni'n ei gynnig i gydlynu holl elfennau seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn well. A ddylen ni ddilyn trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r meysydd hyn?

- 11.1. Atebodd 57 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 11.2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gefnogol i drywydd y ddogfen ymgynghori.
- 11.3. Roedd gan nifer o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn farn ynglŷn â lleoliad yr uned arfaethedig. Roedd y rhain yn cynnwys y dylai'r uned fod yn uned go iawn yn hytrach nag yn un rhithwir.
- 11.4. Roedd nifer o ymatebwyr yn croesawu bod y Llywodraeth yn cynnig cydlynu'r maes a'i gynllunio'n strategol, gydag un ymatebydd yn ychwanegu taw "dim ond y Llywodraeth sydd â'r awdurdod â'r ffrydiau cyllido angenrheidiol i gydlynu'r maes hwn yn llwyddiannus. Mae hefyd yn synhwyrol gan fod y Llywodraeth eisoes yn ariannu nifer o'r prosiectau dan sylw". Ychwanegwyd y byddai lleoli'r adran arfaethedig yn y Llywodraeth yn gwneud synnwyr yn y tymor byr, ac y byddai hynny'n dyrchafu statws y maes. Ond ar gyfer y tymor canolig, holwyd ai dyma'r dyma'r trefniant gorau, ynteu a fyddai strwythur llywodraethiant arall yn fwy pwrpasol.
- 11.5. Nid oedd eraill yn cytuno. Roedd gan ymatebydd bryderon am sefydlu'r uned yn y Llywodraeth pan fo gan gyrff eraill gyfoeth o brofiad yn y maes, boed yr ochr dechnegol neu ieithyddol. Roedd eraill yn pryderu y byddai'r uned arfaethedig yn golygu colli arbenigedd o sefydliadau eraill ledled Cymru.
- 11.6. Roedd un ymatebydd yn anghytuno'n gryf gyda'r egwyddor o greu uned a gwefan newydd, ac y "dylai Llywodraeth Cymru sicrhau gwerth am arian cyhoeddus a ... cryfhau economi Cymru, drwy gefnogi a hyrwyddo mentrau sy'n bodoli eisoes, ac a allai fodoli yn y dyfodol, yn hytrach na thanseilio ymdrechion i sefydlu busnesau hyfyw".
- 11.7. Roedd gan un ymatebydd syniadau pendant ynghylch pa mor bell y dylai gwaith y Llywodraeth yn y maes fynd. Mynegwyd y dylai'r uned ganolbwyntio ar lenwi bylchau yng ngeirfa gyffredinol yr iaith a diweddarau Geiriadur yr Academi. Roedd hefyd yn bwysig cyd-weithio gyda'r cyfryngau (er enghraifft BBC, Golwg, S4C) i adnabod geirfa fel y mae'n codi, ond y byddai'n dal i fod yn anodd sicrhau bod y cyfryngau'n defnyddio termau a safonir o dan unrhyw drefn newydd.
- 11.8. Pwysleisiodd un ymatebydd y dylai cydlynu olygu galluogi, yn hytrach na gweinyddu llawdrwm, a'i bod yn hanfodol nad oes corff gweinyddol newydd yn sugno'r rhan fwyaf o'r adnoddau oddi wrth y prosiectau sy'n gwneud y gwaith ar hyn o bryd.
- 11.9. Nid oedd siaradwr newydd a ymatebodd yn cytuno bod angen safoni termau, ond yn hytrach bod angen gwella hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

- 11.10. Roedd un ymatebydd am weld gwaith yn y maes yn mynd ymhellach nag a gynigiwyd yn y ddogfen ymgynghori, gan roi rôl i'r uned arfaethedig ganfod a chywiro cyfieithiadau gwael. Byddai angen grym deddfwriaethol arni i wneud hynny, yn ôl yr ymatebydd, er mwyn gorfodi cyrff cyhoeddus a phreifat i gywiro camgymeriadau sy'n gosod esiampwl wael.
- 11.11. Roedd ymatebydd arall am weld copïau caled o'r adnoddau digidol yn cael eu datblygu maes o law, yn arbennig mewn meysydd penodol, ar batrwm geiriaduron pynciol Prifysgol Rhydychen.

## Cwestiynau gorfodol

- 12.1. Roedd y ffurflen ymateb hefyd yn cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n cael eu holi fel mater o drefn ym mhob ymgynghoriad. Roedd y rhain wedi ennyn nifer o sylwadau gwerthfawr.

**Cwestiwn 6: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y polisi drafft hwn am seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:**

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?**

- 12.2. Atebodd 65 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 12.3. Yn gyffredinol roedd ymatebwyr yn y rhagweld y byddai effeithiau cadarnhaol yn deillio i'r Gymraeg yn sgil gweithredu'r cynigion yn y papur ymgynghori.
- 12.4. Roedd nifer o'r sylwadau yn yr adran hon yn ailadrodd neu'n ailddatgan yr hyn a ddywedwyd eisoes yn yr atebion cynt. Roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys y byddai sefydlu adran i fod yn gyfrifol am seilwaith ieithyddol y Gymraeg yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith swyddogol gan asiantaethau a chwmnïau sy'n weithredol yng Nghymru, ac yn cefnogi ei defnydd gan ragor o fusnesau, sefydliadau ac unigolion drwy gynyddu eu hyder i'w defnyddio o ddydd i ddydd.
- 12.5. Effaith gadarnhaol arall gafodd ei chrybwyll oedd y byddai'n cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac yn lleihau'r angen i droi i'r Saesneg wrth drafod. Ategwyd y farn hon gan ymatebydd arall, a oedd o'r farn ei bod yn haws ysgrifennu Saesneg yn gywir am fod diffyg adnoddau hawdd eu cyrraedd yn Gymraeg, oherwydd y treigladau, ac am fod mwy o fwllch rhwng Cymraeg llafar a Chymraeg ysgrifenedig

nag sydd yn y Saesneg. Ychwanegwyd bod rhagor o bobl yn ceisio siarad, darllen, ac ysgrifennu'r Gymraeg fel ail iaith, ac felly bod angen mwy o gymorth arnynt.

- 12.6. Nododd sawl ymatebydd y gallai'r cynigion annog defnyddwyr di-Gymraeg i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn hyderus gan wybod eu bod wedi cael cymorth o'r lle iawn.
- 12.7. Nodwyd y byddai'r cynigion yn y papur yn gallu bod yn werthfawr i rieni neu warcheidwaid sydd â phlant mewn addysg Gymraeg. Roedd gan yr un ymatebydd blant yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg, a dywedodd y byddai'r cynigion yn ei helpu i ateb cwestiynau am eiriau a thermau Cymraeg yn hyderus.
- 12.8. Nododd un ymatebydd bod yr effeithiau'n gadarnhaol ar y cyfan, ond bod cyfleoedd i gynyddu'r effeithiau hynny drwy ddylunio "beiddgar sy'n blaenoriaethu'r Gymraeg ac yn gosod y safon o ran dylunio dwyieithog, dylunio gwefan a hygyrchedd ieithyddol", a thrwy sicrhau bod y dull a ddilynrir yn un cynhwysol (yn arbennig wrth drafod cywirdeb ieithyddol). Ategwyd hyn gan ymatebydd arall, a nododd bod yn rhaid "cynnwys y Cymry di-Gymraeg yn hyn oll - neges cryf mai'r nod ydy cefnogi pawb".
- 12.9. Effaith gadarnhaol arall a nodwyd oedd y cynnig o ran yr angen i hyfforddi gweithlu mwy o faint i weithio yn y maes. Nodwyd bod angen datblygu'r syniad hwn ymhellach.
- 12.10. Nododd un ymatebydd y byddai'r cynigion yn hwyluso'i waith fel cyfieithydd.
- 12.11. Roedd ymatebydd o'r farn y byddai'r wefan arfaethedig yn cynnig ffordd syml o ddod o hyd i eiriau a diffiniadau, fel ag yn achos ieithoedd eraill. Nododd mai un o'r dadleuon mwyaf cyffredin yn erbyn defnyddio'r Gymraeg yw nad oes geiriau Cymraeg ar gyfer cysyniadau penodol yn Saesneg, ond roedd o'r farn y byddai'r cynigion yn helpu i wrthbrofi hynny.
- 12.12. Er eu bod yn gefnogol i'r cynigion, roedd sawl ymatebydd yn nodi pwysigrwydd gwneud yn siŵr nad yw termau yn rhy uchel ael. Roedd awydd i sicrhau nad gwefan ar gyfer cyfieithwyr, academyddion a safonwyr yn unig fyddai, ond bod darpariaeth addas hefyd wedi ei theilwra ar gyfer plant, pobl ifanc, ac ati.
- 12.13. Ymysg yr effeithiau negyddol posib a nodwyd, oedd y perygl i'r cynigion yn y papur drafft ychwanegu haen o fiwrocratiaeth i'r maes, gan leihau'r cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy arafu'r broses o greu deunyddiau Cymraeg o'u cymharu â rhai Saesneg.
- 12.14. Roedd yr effeithiau negyddol eraill a grybwyllwyd yn cynnwys na fyddai pobl, o bosib, yn parhau i ddefnyddio gwefannau neu adnoddau eraill; goblygiadau posib yn sgil diwygio term sydd eisoes wedi gwreiddio; neu anghysondebau posibl yn sgil defnyddio gwahanol eiriau yn y gogledd a'r de.



12.15. Mynegodd ambell i ymatebydd mai ofer fyddai'r cynigion heb iddynt arwain at hwyluso rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a bod angen rhagor o bwyslais ar 'hyrwyddo a hwyluso' yng ngwaith yr uned arfaethedig.

12.16. Nodd ymatebydd er y gellid dadlau y byddai'r cynigion o fudd i'r Gymraeg, nad oedd corff neu adran lywodraethol debyg â chyfrifoldeb dros sicrhau bo'r Saesneg yn cael yr un sylw.

### **Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:**

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

12.17. Atebodd 54 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.

12.18. Roedd ambell i ymatebydd yn awyddus i gynorthwyo yn y gwaith, gan gynnig gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu'r adnoddau.

12.19. Roedd ambell i ymatebydd yn rhybuddio ynghylch cymhlethdod a pheryglon posib y cynigion yn y papur ymgynghori. Yn eu plith, roedd anogaeth i gofio bo'r Gymraeg yn rhywbeth sy'n eiddo i bawb, bod "ychydig o ffrwyno arni yn cynyddu cywirdeb a chysondeb, gan ei gwneud yn fwy eglur ac effeithiol fel modd cyfathrebu. Ond mae gormod o ffrwyno yn ei gwneud yn rhwystredig a gelyniaethus, ac yn aneffeithiol fel modd cyfathrebu". Nodwyd na ddylid creu rhywbeth a fydd yn cael ei weld fel "tŵr ifori" ar gyfer cywirdeb ieithyddol, 'yn llawn plismyn iaith', gan bwysleisio bod angen cynnwys pawb ar y daith, nid dim ond y sefydliadau academaidd.

12.20. Yn y cyd-destun hwn, roedd un ymatebydd yn pwysleisio bod angen ystyried beth yw ystyr 'safonol' yng nghyd-destun y ddogfen: "Mae tuedd anffodus ... i dybio nad oes ond un math o Gymraeg 'cywir'. ... Mae angen pwysleisio mai ymwneud â'r iaith safonol y byddai'r gwaith hwn yn bennaf (ac mai dyna yw ei gryfder), ond nad dyna'r unig fath o Gymraeg cymeradwy... mae angen meddwl yn ofalus am sut mae mynegi hyn er mwyn gwrthweithio'r duedd niweidiol i ystyried bod 'cywir', 'gramadegol', a 'safonol' oll yn gyfystyron, a chan hynny dybio ar gam fod adnodd fel hwn yn colffarnu ffurfiau eraill ar y Gymraeg".

12.21. Roedd ymatebydd arall yn credu'n gryf bod angen creu gwefan cyn gynted â phosib, ond bod angen cadw pethau'n syml ar y cychwyn. At hynny, fel yn achos llawer o ymatebion o dan y cwestiwn hwn, pwysleisiwyd yr angen i hyrwyddo a marchnata'r wefan newydd yn eang, gyda ffocws ar y system addysg drwyddi draw, gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau, busnes a'r cyhoedd.

- 12.22. Rhybuddiwyd ynghylch peryglon llethu'r ymholwr ar y wefan gyda gormod o wybodaeth, a allai, yn eironig, arwain at ganlyniadau yn gwrth-ddweud ei gilydd.
- 12.23. Rhybuddiodd ambell i ymatebydd y gallai gwefan o'r fath sy'n tynnu canlyniadau gwahanol adnoddau ynghyd ddisodli'r adnoddau unigol.
- 12.24. Nododd ymatebydd y byddai diweddarau Geiriadur yr Academi yn ffordd amlwg o helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Ychwanegwyd fod termau technegol yn fwy arbenigol eu natur, ac y "dylid felly sefydlu trefn gynhwysol post facto o gydlynu termau ond peidio mynd ati i safoni pecynnau termau technegol pynciol heb fod hynny'n digwydd ochr yn ochr gyda datblygu deunyddiau penodol yn y meysydd hynny".
- 12.25. Nododd ymatebydd arall bod angen i unrhyw drefn newydd fod yn ddigon hyblyg i gyfeirio adnoddau at feysydd blaenoriaeth wrth iddyn nhw ddod i'r amlwg, ac na fyddai trefn sy'n rhy anhyblyg yn caniatáu gwneud hynny pan fydd anghenion newydd neu frys yn codi.
- 12.26. Roedd un ymatebydd o'r farn nad oedd y ddogfen ymgynghori'n rhoi digon o bwyslais ar lwyfannau a chyfryngau y mae pobl yn eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth am seilwaith, gan ychwanegu bod rhai o'r adnoddau a restrwyd yn yr ymgynghoriad yn anodd i'w defnyddio ac yn anhygyrch ar ddyfeisiau symudol.
- 12.27. Pwysleisiodd ymatebydd y byddai cyfleuster sain Cymraeg yn adnodd gwych ar gyfer plant agored i niwed sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ond yn byw ar aelwydydd di-Gymraeg.
- 12.28. Roedd ambell i ddefnyddiwr yn nodi pwysigrwydd lleihau'r bwlch rhwng y disgwyliad am Gymraeg perffaith a'r defnydd o'r iaith gan ddysgwyr a siaradwyr llai hyderus. Rhybuddiodd un ymatebydd fod y bwlch presennol rhwng cyfieithu ac ysgrifennu yn Gymraeg yn rhy fawr.
- 12.29. Nododd ymatebydd y byddai angen cynnal treialon er mwyn gweld beth fydd agwedd pobl at y wefan.
- 12.30. Pwysleisiodd ymatebydd arall bwysigrwydd gwneud yn siŵr bod y broses safoni'n digwydd yn gyflym, gan gymryd amrywiadau daearyddol o ran defnydd geiriau a themau i ystyriaeth.
- 12.31. Er mwyn cynorthwyo staff di-Gymraeg yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, cynigiodd un ymatebydd bod angen canllawiau manwl arnynt ynghylch sut i wneud y defnydd gorau o'r gefnogaeth sydd ar gael. Mynegwyd y byddai galluogi pobl i gael gafael ar ganllawiau o'r fath ar y wefan arfaethedig yn ffordd o hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ar draws pob sector.

**Cwestiwn 8: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

- 12.32. Atebodd 47 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 12.33. Nododd sawl ymatebydd, oherwydd maint ac uchelgais y prosiect arfaethedig, bod angen amserlen benodol a dyddiad lansio arno cyn gynted â phosib. Er enghraifft, nododd un ymatebydd fod datblygiadau ym maes seilwaith wedi bod yn araf iawn yn y gorffennol – yn bennaf oherwydd cymhlethdod y maes – ac felly nad oes lle i oedi ymhellach.
- 12.34. Roedd sawl ymatebydd a oedd yn cynrychioli sefydliad neu adnodd yn barod iawn i gynnig eu cefnogaeth a'u cymorth ymarferol gyda'r gwaith yn y maes hwn.
- 12.35. Nododd ymatebydd y byddai'n fuddiol ystyried datblygu prentisiaethau ym maes geiriadura, terminoleg a thechnoleg iaith ar y cyd rhwng prosiectau mewn gwahanol sefydliadau. Nododd fod llawer o'r sgiliau dan sylw yn drosglwyddadwy i feysydd eraill, ac y byddai hyn yn fodd o gynyddu nifer yr unigolion â'r sgiliau addas.
- 12.36. Ychwanegwyd bod angen cadw mewn cof bod angen trin "y Gymraeg fel iaith i gyfansoddi ynddi yn ogystal ag iaith y bydd angen cyfieithu testunau Saesneg iddi", a bod 'pobl yn chwilio geiriadur fel GPC i ddysgu mwy am y gair (er enghraifft cenedl, ffurf luosog, union ystyr neu darddiad) yn hytrach na'r geiriau Saesneg cyfystyr" .
- 12.37. Gan gydnabod bod y maes yn gymhleth a bod angen cymryd un cam ar y tro, mynegodd un ymatebydd nad oedd y polisi drafft yn ateb sut i ddwyn arbenigeddau ymarferwyr ynghyd mewn ffordd strategol, ac nad yw'n mynd i'r afael â'r strwythurau sy'n cynnal yr adnoddau presennol.
- 12.38. Holodd un ymatebydd a fyddai modd edrych ar ddull 'trac cyflym' o safoni termau, gan gyfeirio'n benodol at faes hiliaeth a'r angen i safoni ar frys.
- 12.39. Nododd ymatebydd arall bwysigrwydd cymryd un cam ar y tro, ac y byddai'n fuddiol canolbwyntio ar ddiweddarau Geiriadur yr Academi i ddechrau, gan ehangu o hynny i gydlynu gwaith arall. Ychwanegwyd na ddylid tanbriso maint y tasgau hynny.
- 12.40. Roedd un ymatebydd yn awgrymu y dylid rhoi'r gwaith o gydlynu adnoddau i gorff ac eithrio Llywodraeth Cymru, er enghraifft y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a hynny am fod gan y Coleg berthynas gyda holl brifysgolion a sefydliadau addysg bellach Cymru.
- 12.41. Roedd ymatebydd o'r farn y dylai'r uned newydd recriwtio o bob cwr o Gymru, er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn denu arbenigwyr yn y maes. Yn hynny o beth, y farn oedd na ddylai'r uned gael ei lleoli mewn un man daearyddol, am ei bod yn bosib cael staff ar wasgar ac yn gweithio o adref neu mewn hwb lleol.

- 12.42. Mynegwyd hefyd bod angen gwybod pwy fyddai'n cael mewnbwn i'r broses o fathu termau newydd, ac o ran y defnydd o dermau sydd eisoes wedi ennill eu plwy, yn ogystal â phwy fyddai'n torri unrhyw ddadl.
- 12.43. Ychwanegodd ymatebydd arall fod llawer o arbenigedd gan nifer o gyrff yng Nghymru, a'r gobaith oedd y byddai'r broses gydlynu'n un gynhwysol a fyddai'n cynnwys gwrando a gweithredu ar farn arbenigwyr.
- 12.44. Pwysleisiodd ambell i ymateb bwysigrwydd sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â strategaethau a pholisïau eraill sy'n bodoli eisoes. Roedd ymatebydd o'r farn y dylai'r uned arfaethedig weithio'n agos gydag uned hyrwyddo defnydd iaith er mwyn rhannu arferion da a manteisio ar yr ymchwil diweddaraf o ran technoleg a gwyddorau ymddygiad. Yn hynny o beth, roedd yn bwysig lleoli'r polisi cyfan yng nghyd-destun ehangach polisïau addysg a digidol y Llywodraeth, a'r tu hwnt.
- 12.45. Roedd un ymatebydd am weld yr uned arfaethedig yn datblygu symbolau ar gyfer 'Ch', 'Dd', 'Ll' a 'Rh'.

## Sgyrsiau â grwpiau ffocws

13.1. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus a ddadansoddwyd uchod, cafodd sawl sgwrs neu grŵp ffocws eu cynnal er mwyn holi barn a thrafod y cynigion yn y polisi drafft.

### Grŵp Ffocws 1: Asiantaeth Safonau Bwyd, ac Amgueddfa Cymru

13.2. Dyma ddau gorff sy'n gorfod ymateb yn sydyn i'r angen am dermau newydd yn eu priod feysydd. Roedd eu sylwadau'n cynnwys:

- Er mwyn delio â thermau proffil uchel o bwys cenedlaethol sydd angen eu safoni ar frys, mae angen cronfa o bobl arbenigol y gall grŵp canolog alw arnyn nhw yn ôl y gofyn.
- Mae angen meddwl o ddifri am rôl y cylch trafod termau (hynny yw Welsh-Termau-Cymraeg ar wefan Jiscmail) a grwpiau tebyg, er enghraifft ar Facebook, yn y dyfodol.
- Soniwyd bod angen ystyried sut fyddai'r uned newydd yn sganio'r gorwel am yr angen am dermau penodol, a sut byddai'n cymryd cyfrifoldeb amdanyn nhw.
- Crybwyllwyd eu bod nhw weithiau'n bathu termau gan ddefnyddio arbenigwyr, ond ei bod yn bwysig osgoi sefyllfa lle mae sawl cyfieithiad gwahanol am yr un term. Awgrymwyd y byddent yn fodlon helpu i geisio dod o hyd i ddatrysiad yn hynny o beth.

### Grŵp Ffocws 2 – cyfieithwyr llawrydd

13.3. Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda phedwar cyfieithydd llawrydd – aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru – a dynnwyd ynghyd gyda chymorth y Gymdeithas.

13.4. Dywedodd un cyfieithydd bod Geiriadur yr Academi wedi dyddio a'i fod bellach yn *snapshot* o gyfnod mewn amser. Er mwyn cael cysondeb wrth fathu termau a'u lledaenu, mynegodd ei bod yn hanfodol meithrin cyswllt gyda BBC Cymru. Dywedodd bod llawer o bobl yn defnyddio grwpiau Facebook a'i bod yn ddiddorol nodi bod y cwestiynau a ofynnir gan ddysgwyr yn aml yn wahanol i gwestiynau siaradwyr rhugl. Roedd hefyd angen ateb cwestiynau fel beth yw "cywirdeb" – er enghraifft ydy'r iaith a ddefnyddir mewn negeseuon testun yn gywir? Nododd mai syniad da fyddai i'r uned arfaethedig gadw golwg rheolaidd ar y cyfryngau cymdeithasol, grŵp Jiscmail, grwpiau Facebook ac ati i weld beth yw'r problemau ieithyddol sy'n codi. O ran safoni, nodwyd bod mynediad at gronfa enwau lleoedd yn hollbwysig, a bod dirfawr angen crynhoi'r rhestrau o enwau strydoedd ynghyd mewn un man.

13.5. Dwedodd cyfieithydd arall bod geiriaduron a thermau wedi dod yn hollbwysig i blant a rhieni yn sgil cyfnodau clo'r coronofeirws. Roedd y cyfranogwr yn gryf o'r farn mai

pobl ar lawr gwlad ddylai fod yn “bathu” termau, gyda chyfieithwyr yn defnyddio'r geiriau hynny lle bo modd.

- 13.6. Nododd cyfranogwr arall ei bod, fel cyfieithydd, yn croesawu'r papur ymgynghori am ei fod yn cynnig mynd i'r afael â llawer sydd angen ei wneud – gan gynnwys un o'r pethau mwyaf, sef geiriadur Cymraeg i Saesneg, sy'n fwllch mawr yn y ddarpariaeth bresennol. Mynegwyd bod un porth canolog yn rhywbeth positif y bu ei angen ers blynyddoedd. Ychwanegodd fod BydTermCymru yn adnodd gwych, a chynnyrch Canolfan Bedwyr yn adnoddau arbennig, a bydd tynnu eu canlyniadau ynghyd mewn un man yn gam i'r cyfeiriad cywir. Dywedodd fod marchnata'n hynod bwysig, a'i bod yn syndod faint o bobl sydd ddim yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael nawr, hyd yn oed ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl. O ran y cynigion ynghylch safoni, roedd croeso i hyn, ond nodyn o rybudd y gallai hyn fod yn gynhennus am fod gan bawb farn – er enghraifft gall barn pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg ar lawr gwlad fod yn wahanol i'r safbwynt academaidd, i enwi ond un enghraifft.
- 13.7. Nododd cyfieithydd, o ran safoni, bod cael arbenigwyr pwnc wrth law yn hollbwysig. Gydag athrawon, dywedodd fod yn rhaid i bethau fod ar gael yn ddidrafferth – yn hynny o beth, byddai'n ddefnyddiol cydweithio gyda'r consortia addysg ar becyn hyfforddiant i athrawon ddefnyddio'r adnoddau, am fod rhoi adnoddau i athrawon allu cyfeirio disgyblion a'u rhieni / gofalwyr atynt yn ganolog.
- 13.8. Ychwanegodd cyfranogwr bod cael 'siop-un-stop' sy'n rhestru'r holl wefannau perthnasol yn gam cyntaf hollol greiddiol. Pwysleisiodd y byddai datblygu canllaw arddull sy'n nodi beth sy'n addas mewn cyd-destunau gwahanol yn waith mawr, ond yn waith gwerthfawr.

### Grŵp Ffocws 3 – tiwtoriaid y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

- 13.9. Ar gais swyddogion Llywodraeth Cymru, cynhaliodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sesiwn ymgynghori gyda 10 o diwtoriaid y Ganolfan. Casglwyd ymatebion i'r cwestiynau canlynol:
- 13.10. Sut ydych chi'n dod o hyd i dermau ar hyn o bryd / ble ydych chi'n dod o hyd i dermau? (gwefannau, llyfrau, geiriaduron ayb) enwch rhain...Oedd digon o ddewis ble i chwilio? Oedd gormod o ddewis?**

Yr ateb mwyaf poblogaidd oedd yr ap geiriaduron. Ond roedd amrediad mawr o atebion gan gynnwys: Geiriadur yr Academi ar-lein, glosbe.com – yn dda gan fod enghreifftiau o'r geiriau mewn cyd-destunau gwahanol, BydTermCymru, Google Translate (ddim yn cael ei argymhell heb sgiliau golygu cryf), Geiriadur yr Academi, Geiriadur Prifysgol Cymru, y Porth Termau, Geiriadur Gomer i'r Ifanc – mae'n cynnig disgrifiad o ystyr y gair yn ogystal â chyd-destun addas, Geiriadur y Drindod – yn gryno iawn, gyda'r term gramadegol i helpu dealltwriaeth.

- 13.11. Beth fyddai'n defnyddiol i chi fel defnyddiwr / neu i'ch dysgwyr?**

Nodwyd ei bod yn dda i ddysgwyr allu gweld ystyr gair, ac i weld enghraifft o'r gair yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun.

Cyfeiriwyd at rai ymdrechion sydd wedi bod i greu 'geiriadur treigliadau' – sef geiriadur sy'n dangos geiriau treigliedig. Teimlwyd y byddai hyn yn fanteisiol ar gyfer geirfa/dysgwyr lefel Mynediad – ond ar ôl hynny y dylai dysgwyr allu deall bod angen chwilio am eiriau sy'n dechrau gyda llythyren wahanol.

Cyfeiriwyd at adnoddau sydd wedi eu cyhoeddi yn y gorffennol gan gynnwys 'Gair i Gall' gan Acen a geiriadur dysgwyr gan y BBC.

### **13.12. Beth sy'n digwydd pan fod gair â mwy nag un ystyr? Sut ydych chi/eich dysgwyr yn gwybod pa un i ddefnyddio?**

Nodwyd bod hyn yn anhawster mewn pob iaith. Dyma ble mae cynnig geiriau mewn cyd-destun o gymorth.

### **13.13. Ble a sut ydych chi'n chwilio am eiriau unigol > lluosog**

Nodwyd bod hon yn broblem sy'n arbennig o wir yn Gymraeg – yn rhestrau geirfa'r Ganolfan, rhoddir y gair lluosog fel gair 'ar wahân' os yw'n arbennig o wahanol.

### **13.14. Wrth chwilio am air penodol er enghraifft enfys – beth ydych chi'n ddisgwyl ei weld yn yr ymateb? Cyfieithiad yn unig? Fersiwn lluosog? Ydy gwybod a yw'r gair yn ferf, adferf, benywaidd, gwrywaidd, sut mae'n treiglo yn helpu? A fyddai'n ddefnyddiol cael rhestr geiriau cysylltiedig?**

Cytunwyd bod angen hyn ar ddysgwyr.

## **Grŵp Ffocws 4 – siaradwyr newydd yn Llywodraeth Cymru**

13.15. Gan fanteisio ar rwydwaith eang o bobl sydd wedi bod ar y daith o ddysgu'r Gymraeg yn y sefydliad, cafwyd sgysiau gyda thri aelod o staff i drafod eu profiadau ar y daith honno, a'u canfyddiad o'r adnoddau seilwaith dan sylw.

13.16. Roedd un cyfranogwr wedi bod ar daith gyda'r Gymraeg ers deng mlynedd ac wedi cyrraedd lefel uwch. Roedd yn dueddol o ddefnyddio'r Ap Geiriaduron ar y ffôn symudol, yn ogystal â Cysill. Roedd yn llunio ambell i ddogfen fel rhan o'i swydd, gan gymharu testunau er mwyn eu gwirio, a defnyddio Cysill. Meddai os oes siop-un-stop ar gyfer adnoddau, y bydd adnoddau geirfa'n bwysig iawn, er enghraifft rhestrau geiriau ar gyfer gwahanol feysydd megis ffermio. Ar hyn o bryd, nid yw'n siŵr pa air i'w ddewis os oes mwy nag un ateb – anodd gwybod p'un sy'n cael blaenoriaeth. Wrth ddysgu Cymraeg, roedd wedi cael llawer o daflenni adolygu gan y Brifysgol a oedd yn ddefnyddiol tu hwnt – holodd a fyddai modd lleoli adnoddau tebyg i hyn mewn man hygyrch ar y wefan i helpu gydag, er enghraifft, gramadeg a berfau hanfodol, a threigladau. Byddai'r pethau hyn yn eithriadol o ddefnyddiol i ddysgwyr.

13.17. Nododd cyfranogwr arall nad oedd yn gweld bod geiriau unigol yn anodd, ond taw patrymau oedd yn peri'r mwyaf o anhawster. Roedd am ysgrifennu mwy, ond ddim bob amser yn siŵr a oedd y patrymau yr oedd yn eu defnyddio yn gywir – yn gweld y naid o iaith lafar i iaith ysgrifennu'n fawr. Roedd eisiau gweld un lle gyda rhestr o'r gwahanol gymorth sydd ar gael. Er enghraifft, yn yr adran Geiriaduron, rhestr o'r geiriaduron gyda disgrifiad ohonyn nhw ac i bwy maen nhw'n addas, gyda manteision ac anfanteision pob un, ac ati. Ychwanegodd y byddai cyfarwyddiadau ar bethau ymarferol fel sut i deipio hirnodau'n ddefnyddiol.

13.18. Nododd trydydd cyfranogwr ei bod o'r farn bod angen adnodd fel gwefan i wella'r sefyllfa, a bod hyn wedi croesi ei meddwl cyn iddi wybod am yr ymgynghoriad, a bod ganddi nifer o syniadau posibl y gallai eu rhannu. Yn ogystal â nifer o'r syniadau sydd eisoes wedi eu crybwyll yng nghorff y ddogfen uchod, roedd y syniadau hyn hefyd yn cynnwys, er enghraifft:

- Cymorth i newid MS Windows i'r Gymraeg
- Newid eich proffil Facebook i'r Gymraeg
- Gair y Dydd
- Dysgwr y Flwyddyn
- BBC Bitesize yn Gymraeg
- Gwasanaethau Cymraeg
- Hwiangerddi
- Straeon newyddion Cymraeg
- Sut i drethu'ch car yn Gymraeg
- Gwybodaeth am ddiwylliant a hanes y Gymraeg
- Digwyddiadau a gwyliau Cymraeg / Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg



## Casgliad a'r camau nesaf

14. Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a roddodd o'u hamser i wneud hynny. Gan adeiladu ar yr adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn gwneud datganiad ar y camau nesaf maes o law.

## Atodiad A - Rhestr ymatebwyr

Cyf.	Ymatebydd	Sefydliad (os yw'n berthnasol)
01	Sian Kitchener	
02	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
03	Josef Roberts	Pai Language Learning
04	Di-enw	
05	Ymateb anhysbys	
06	Heather Powell	
07	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
08	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
09	Luke Ryan	
10	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
11	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
12	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
13	Di-enw	
14	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
15	Emma Jones	Babcock Training
16	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
17	Stephen Robert Morris	PRP Training
18	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
19	Di-enw	
20	Geraint Lewis	
21	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
22	Mary Evans	

23	Di-enw	
24	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
25	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
26	Bethan Wyn Hughes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
27	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
28	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
29	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
30	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
31	Glyn Ellis Hughes	
32	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
33	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
34	Rebecca Williams	UCAC
35	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
36	Robert Phillips	
37	Bedwyr ab Ion Thomas	Prifysgol Caerdydd - Y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau
38	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
39	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
40	Catrin Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
41	Derec Stockley	
42	Dr Roger Morgan	Pupils 2 Parliament
43	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
44	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
45	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	

46	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
47	Delyth Prys	Uned Technoelgau Iaith, Prifysgol Bangor
48	Prifysgol Bangor	Prifysgol Bangor
49	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
50	Barbara Lyne	
51	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
52	Mike Lewis	Hawliau
53	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
54	John Les Tomos	
55	Angela Mutlow	Board of Community Health Councils in Wales
56	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
57	Holger Hvelplund	IDM
58	Lloyd Evans	Senedd Cymru
59	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
60	Dylan Foster Evans	
61		Cymdeithas yr Iaith
62	D. Geraint Lewis	
63	Efa Gruffudd Jones	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
64	Sharon Stephens	
65	Angharad Mai Roberts	Adran Dwyieithrwydd, Grŵp Llandrillo Menai
66		Mudiad Meithrin
67	Lynda Tunnicliffe	Rily Publications
68	Myfanwy Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
69		Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
70	Gwerfyl Roberts	Is-grŵp Iechyd Cymdeithas yr Iaith

71	Nudd Lewis	
72	Andrew Hawke ac Elin Haf Gruffydd Jones	Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
73	Sioned Mai Fidler	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
74	Ryan Evans	Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
75	Ben Alun Screen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
76		Comisiynydd y Gymraeg
77	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
78	Elen Hughes	Menter Iaith Môn
79	Stuart Williams	NEU Cymru
80	Gruffudd Prys	Y Termiadur Addysg
81	Hywel G Hughes	Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg
82	Dr Ioan Matthews	Coleg Gymraeg Cenedlaethol
83	Manon Humphreys	Amgueddfa Cymru
84	Heini Gruffudd	Dyfodol i'r Iaith
85	Bruce Griffiths	
86	Ann Corkett	
87	Geraint Wyn Parry	Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
88	Duncan Hodgson	